

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWDY YN
SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD LLUN, 1 EBRILL 2019**

AELODAU

Y Cynghorydd M G Morris, Cadeirydd
Y Cynghorydd Marc Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	John McCusker
"	I David Bithell, MBE	"	Beverley Parry-Jones
"	Michael Dixon	"	Paul Pemberton
"	Frank Hemmings	"	John Phillips
"	Adrienne Jeorrett	"	Ronnie Prince
"	Gwenfair Jones	"	John Pritchard
"	Paul Jones	"	Paul Roberts
"	* David Maddocks	"	Graham Rogers
"	Tina Mannering	"	Andy Williams

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr D J Griffiths

64 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorydd David Maddocks.

65 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau am eu cyfrifoldeb dan Erthygl 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Eitem 4 ar y Rhaglen – Ceisiadau Rheoli Datblygu

Y Cynghorydd Tina Mannering - Cysylltiad Personol ac un sy'n rhagfarnu– Cais Rhif P/2018/0997 fel Aelod Lleol. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r bleidlais.

66 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD – Y dylid cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

67 CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/02/10) i

benderfynu ar y ceisiadau cynllunio a restrwyd. Tynnwyd sylw at yr atodiad i'r adroddiad lle bo'n berthnasol.

Cais Rhif P/2018/0684 - trawsnewid llawr cyntaf presennol ac adeiladu lledloriau i greu 53 o fflatiau (51 o rai un ystafell wely a 2 o rai dwy ystafell wely), gwaith cysylltiedig a newidiadau allanol yn Sgwâr Henblas, Stryt Henblas, Wreccsam LL13 8AE

PENDERFYNWYD – GWRTHOD rhoi caniatâd.

Rheswm

Nid yw'r datblygiad yn gwneud cyfraniad digonol tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy ac felly mae'n groes i Nodyn 28 Canllawiau Cynllunio Lleol a Pholisi H7 y Cynllun Datblygu Unedol.

Cais Rhif P/2018/0864 – estyniad ystafell wely ac ystafell gawod unllawr ar y cefn – 39 Tanydre, Wreccsam, LL13 9AY

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad CPR/02/10.

Cais Rhif P/2018/0997 – Codi 23 o unedau preswyl fforddiadwy gyda pharcio cysylltiol yn Woodlands Farm, Lôn Dodd Gwersyllt, Wreccsam LL11 4NS

(Mae datganiad o gysylltiad personol aelod mewn perthynas â'r cais hwn wedi'i nodi yng Nghofnod 65 uchod).

Siaradodd preswilydd yn erbyn y cais.
Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

Cododd sawl Aelod bryder mewn perthynas â bod y safle y tu allan i ffin anheddiad ac roeddent yn teimlo bod hynny'n amhriodol ar gyfer datblygu.

PENDERFYNWYD – y dylid GWRTHOD y cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad CPR/02/10 a'r Atodiad i'r Adroddiad, gyda rheswm ychwanegol dros wrthod:

Rheswm ychwanegol

Mae'r safle'n cynnwys tir amaethyddol Gradd 3a felly mae'r datblygiad arfaethedig yn groes i bolisi EC2 o Gynllun Datblygu Unedol Wreccsam.

Cais Rhif P/2018/1014 – newid defnydd o Dŷ Amldefnydd i Ganolfan Les gan gynnwys cynyddu'r ardal barcio ac addasu mynediad 46 a 46a Ffordd Caer, Wrecsam

Siaradodd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodir yn adroddiad COPR/02/10 yn ogystal â'r wybodaeth bellach a nodir yn Atodiad yr adroddiad.

Cais Rhif P/2018/1050 – adeiladu mynediad newydd / dreif a chodi ffens derfyn (yn ôl weithredol) – 1 The Stables Bowling Bank, Wrecsam, LL13 9QF

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodir yn adroddiad COPR/02/10 yn ogystal â diwygiad i Amodau 3 a 4 fel y nodwyd yn Atodiad yr adroddiad a'r ychwanegiad canlynol:

Diwygio Amod 3

Bydd y fynedfa a gymeradwyir drwy hyn yn cadw lleiniau gwelededd o 2.4 metr x 33 metr yn y ddau gyfeiriad wedi'u mesur i linell ganol y briffordd gyfagos. O fewn y lleiniau hyn ni fydd unrhyw rwystr dros 1 metr o uchder uwchben lefel y briffordd gyfagos. Wedi hynny bydd y lleiniau'n cael eu cadw'n glir o unrhyw rwystr i welededd yn barhaol.

Diwygio Amod 4

Bydd y manau parcio a throi cerbydau fel y nodwyd ar y Cynllun a gymeradwywyd: 158002 yn cael ei osod, gydag arwyneb a'i ddraenio cyn defnydd cyntaf y datblygiad. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu cynnal yn barhaol wedi hyn a'u cadw yn rhydd o rwystrau, ac ar gael yn llwyr ar gyfer parcio a throi cerbydau modur bob amser.

Ychwanegu Amod 10

O fewn mis o ddyddiad y caniatâd hwn, bydd y safle'n cael ei osod yn unol â'r cynllun a nodwyd yng nghyfeirnod: 158002.

Rheswm: Er budd diogelwch ar y briffordd ac yn unol â Pholisi GDP1 o Gynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cais Rhif P/2018/1070 – trawsnewid ysgubor i fod yn annedd sengl – Tir oddi ar y Ffennant, Ponciau

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/02/10.

Cais Rhif P/2018/1081 – cyflwyno materion a gadwyd yn ôl yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol P/2017/0527 – cynllun, maint, ymddangosiad, tirlunio ar gyfer gwasanaethau ochr y ffordd yn cynnwys gorsaf betrol gyda chiosg ategol a gofodau parcio a gwaith cysylltiol-

Tir i'r Gorllewin o Glwb Golff Wreccsam oddi ar Gylchfan A534 Ffordd Holt, Llanypwll, Wreccsam

Siaradodd gwrthwynebydd yn erbyn y cais.

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – Bod y Materion a Gadwyd yn ôl fel y nodwyd yn yr adroddiad CPR/02/10 yn cael eu CYMERADWYO.

Cais Rhif P/2019/0006 - cais amlinellol ar gyfer 1 annedd ar dir amwynder ger 8 Llwyn Onn, Parc Lodgevale, y Waun, Wreccsam, LL14 5RF

Siaradodd preswilydd yn erbyn y cais.

Siaradodd cynrychiolydd yr ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodir yn adroddiad CPR/02/10 yn ogystal â'r wybodaeth bellach a nodir yn Atodiad yr adroddiad.

Cais Rhif P/2019/0023 – Estyniadau ochr a chefn a chodi garej – yr Hen Siop, Lôn Cadney, Bettisfield, Wreccsam, SY13 2LN

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad CPR/02/10.

Cais Rhif P/2019/0059 – Estyniad ochr i fyngalo presennol a chodi garej atodedig – 24 Ffordd Caerwynt, Gresffordd, LL12 8HG

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad CPR/02/10.

Cais Rhif P/2019/0097 – Estyniadau cefn unllawr, addasiadau i'r to, cyntedd newydd ac elfennau to y drychiad blaen - Brancote, 71 Lôn Wynnstay, Merffordd, Wreccsam, LL12 8LH

PENDERFYNWYD – y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad CPR/02/10.

Y Cyngorydd M G Morris
Cadeirydd